Pa le, pa fodd dechreuaf

Caneuon Ffydd: Rhif 331

Pa le, pa fodd dechreuaf
foliannu'r Iesu mawr?
Olrheinio'i ras ni fedraf,
mae'n llenwi nef a llawr:
anfeidrol ydyw'r Ceidwad,
a'i holl drysorau'n llawn;
diderfyn yw ei gariad,
difesur yw ei ddawn.

Trugaredd a gwirionedd
yng Nghrist sy nawr yn un,
cyfiawnder a thangnefedd
ynghyd am gadw dyn:
am Grist a'i ddioddefiadau,
rhinweddau marwol glwy',
y seinir pêr ganiadau
i dragwyddoldeb mwy.

O diolch am Gyfryngwr,
Gwaredwr cryf i'r gwan;
O am gael ei adnabod,
fy Mhriod i a'm rhan,
fy ngwisgo â'i gyfiawnder
yn hardd gerbron y Tad,
a derbyn o'i gyflawnder
wrth deithio'r anial wlad.

ROGER EDWARDS, 1811–86

MYFYRDOD

'Diolch am gyfryngwr' yw testun yr emyn hwn yn hen lyfr y Methodistiaid, ac mae ein diolch ninnau'n fawr hefyd i Roger Edwards am ei waith ynglŷn â'n hemynyddiaeth yng Nghymru. Mewn cyfnod pan oedd eraill yn ddigon bodlon ar gasgliad Robert Jones, Rhos Lan, o emynau *Grawn-Syppiau Canaan*, fe aeth Roger Edwards ati ar ei liwt ei hun, yn ŵr ifanc naw ar hugain oed, i gyhoeddi ei gasgliad ei hun o emynau: *Y Salmydd Cymreig*, a dyfodd erbyn 1849 i gynnwys 883 o emynau a 150 o salmau cân – dyna fwy na'n *Caneuon Ffydd* presennol hyd yn oed. Detholodd 50 o emynau o'i waith ei hun ar gyfer ei gasgliad. Ceir tri ohonynt yn *Caneuon Ffydd* a dichon mai'r uchod yw'r mwyaf cyfarwydd ohonyn nhw.

Ond mae'r hanes am awydd angerddol Roger Edwards i hyrwyddo'n hemynyddiaeth Gymreig yn dangos inni ei awydd mwy angerddol fyth i 'foliannu'r Iesu mawr'. Er casglu cymaint o emynau a chaneuon ysbrydol, megis dechrau mae'r moliant iddo. Nid oes dichon 'olrheinio'i ras', am ei fod yn 'llenwi nef a llawr'. Mae'r ansoddeiriau a ddefnyddia Roger Edwards yn dangos inni nad ydym ni – sydd yn byw ym myd y terfynau lle mae amser yn rheoli pob dim – ond wedi cael cip ar y Ceidwad hwn sy'n anfeidrol, yn ddiderfyn, yn ddifesur, ac y bydd seinio 'pêr ganiadau' iddo 'i dragwyddoldeb mwy'.

Mae amlder y teitlau sydd gan yr emynydd am Iesu Grist: Ceidwad, Cyfryngwr, Gwaredwr, Priod, hefyd yn rhoi inni ddarlun o ehangder Crist a mawredd ei ogoniant. Dyma'r Un sydd yn gallu'n dwyn ninnau o fyd y terfynau gydag ef a rhoi inni fywyd yn ei holl gyflawnder, yn dechrau yma nawr ac yn para i dragwyddoldeb (Ioan 10:10).

Fe wna Roger Edwards hyn trwy roi inni ei gyfiawnder ei hun, yr hyn sy'n ein gwneud ni'n 'iawn' gerbron Duw. Defnyddia ddelwedd Eseia pan sonia am: 'fy ngwisgo â'i gyfiawnder yn hardd gerbron y Tad'. 'Taenodd fantell cyfiawnder drosof,' medd Eseia (61:10), am y rheswm nad ydy'n cyfiawnder ni ein hunain ond 'fel clytiau budron', (Eseia 64:6). Diolchir yma am y wisg hardd sy'n cuddio ein hanghyfiawnder a'n pechod ni ein hunain. Iesu yw'r unig un all wneud hyn, a'i gyfiawnder ef yn unig all ein cymodi ni â Thad mor gyfiawn a chywir ei farnau (Salm 119:137) ag sydd gennym ni. Mae 'cyfiawnder a barn yn sylfaen i'w orsedd' (Salm 97:2) ac mae am i ninnau fod yn debyg iddo yn yr hyn oll a wnawn ni ac yn ein perthynas â phobl eraill. Pan blygwn ni mewn edifeirwch a derbyn ei drugaredd fe gawn godi wedi ein 'gwisgo â'i gyfiawnder', yn iawn, yn hardd ac yn dderbyniol gerbron y Tad; dyna pryd y gallwn ni ddod yn iawn efo eraill hefyd, o fod yn iawn efo Duw am mai 'yr Arglwydd yw ein cyfiawnder' (Jer. 23:6).

GWEDDI

O Dad, sut gallaf fi byth ddiolch digon iti am fy nwyn i berthynas â thi dy hun, am ein dwyn ni'n ôl yn ffrindiau ac am gymodi rhyngom ni yn dy Fab. Diolch nad yn fy nillad fy hun rydw i'n sefyll o dy flaen di bellach, ond yng ngwisg hardd cyfiawnder Iesu Grist. Yn enw Iesu Grist y cyfiawn. Amen.